Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**Lleisiau Goroeswyr**

**Noddir gan Mark Isherwood AC a Bethan Sayed AC**
**17 Hydref 2018 12.00-13.30**
**Y Pierhead, Ystafelloedd Seminar 1 a 2**

Bethan Sayed AC (cyd-gadeirydd)
Helen Mary Jones AC
Hilary Watson - WEN Cymru
Gwilym Roberts - Relate
Mutale Merrill - BAWSO
Cynrychiolydd o Llamau
Carole Phillips
Catherine Phillips - Cymorth i Ferched Cymru
Kay Lemon - Cymorth i Ferched Cymru
Elinor Crouch-Puzey - Cymorth i Ferched Cymru
Gauri - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (siaradwr)
Hilary - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (siaradwr)
Bethan - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (siaradwr)

**Ymddiheuriadau:**

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru
Llyr Gruffydd AC - Plaid Cymru
Jane Ruthe - RASA Cymru
Jackie Stamp New Pathways.
Menna Thomas - Barnardo’s Cymru
Vivienne Laing - NSPCC Cymru
Yvonne Jardine
Kay Evans – Tîm trais yn erbyn menywod,
cam-drin domestig a thrais rhywiol

| **Cofnodion** |
| --- |
| Dosbarthwyd y cofnodion yn y cyfarfod |
| **Siaradwyr:**<br>*Guari - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr*<br>Lleisiau goroeswyr ac iechyd<br><br>*Bethan - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr*<br>Effaith cynhyrchiad theatr *35 Times*<br><br>*Hilary - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr*<br>Addysg |
| **Trafodaeth:**<br><br>**Lleisiau Goroeswyr:** Cyflwynodd Gauri y sesiwn ac eglurodd bwrpas y grŵp Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr a pha mor werthfawr yw'r grŵp i Lywodraeth Cymru o ran ei gyrhaeddiad, gan ei fod yn ymdrin â gwahanol leoliadau daearyddol ledled Cymru.<br><br>Mae Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr wedi bwydo i mewn i'r canlynol ac wedi'u llywio;<br><br>• Siarad yng Ngrŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant o safbwynt goroeswr ar lawer o faterion<br>• Rhoi cyflwyniad mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol<br>• Llywio gwaith cyfathrebu ac ymgyrchoedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru<br>• Gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol i lunio eu gwasanaethau a'u strategaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol<br>• Rhannu profiadau o gam-drin domestig a rheolaeth orfodol i lywio hyfforddiant staff arbenigol y sector gan gynnwys yr heddlu<br>• Cymryd rhan mewn grwpiau ffocws a gweithgareddau ymgysylltu eraill<br><br>Rhaid i leisiau goroeswyr fod wrth wraidd penderfyniadau ac mae'r grŵp yn defnyddio ei brofiadau i lywio hyfforddiant a pholisi.<br><br>Tynnodd Guari sylw at y ffaith bod eu profiadau'n bwerus ac yn arbenigol ac y dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu hariannu a'u defnyddio.<br><br>***35 Times***: Soniodd Bethan am yr effaith y mae'r cynhyrchiad theatr wedi’i gael hyd yma, gan gynnwys swyddogion heddlu yn dweud y byddant nawr yn gweld cam-drin domestig mewn goleuni gwahanol ac y byddant yn ymateb i alwadau yn wahanol yn y dyfodol. |

Mae Bethan yn awyddus bod mwy o bobl ifanc yn gweld y sioe er mwyn gweithio tuag at well dealltwriaeth o berthnasoedd iach ac i helpu i ddod â'r tabŵ o gwmpas trais i ben. Mae hi'n teimlo pe na bai'r pwnc wedi bod yn gymaint o dabŵ pan oedd hi'n ifanc, efallai y byddai wedi gweld yr arwyddion rhybudd yn gynt.

**Addysg:** O'i phrofiad ei hun gydag ysgol ei phlentyn, mae Hilary yn poeni bod diffyg hyfforddiant mewn ysgolion a diffyg dealltwriaeth o fanteision addysg perthnasoedd iach. Mae angen i hyn ddod gyda newid mewn diwylliant mewn ysgolion. Mae hi'n teimlo bod ysgolion uwchradd yn arbennig yn gweld plant fel 'problemau' yn hytrach na phlant â phroblemau.

Mae effaith addysgu tameidiog mewn ysgolion uwchradd hefyd yn peri pryder, gan ei bod yn anoddach i blant wneud cysylltiadau ag un athro dibynadwy yn ogystal â chynghorwyr ysgol nad ydynt bob amser wedi'u hyfforddi'n addas. O'i phrofiad hi, nid oes unrhyw staff wedi'u hyfforddi'n benodol yn ysgol ei mab ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Hilary'n poeni bod y pwysau ar ysgolion i berfformio a gwneud yn dda mewn tablau cynghrair yn creu pwysau ychwanegol ar blant sy'n agored i niwed. Rhaid i unrhyw hyfforddiant i ysgolion ar gam-drin domestig gydnabod yr effaith y mae'n ei gael ar ddysgu plentyn. Mae plant yn treulio 30 awr yr wythnos yn yr ysgol, felly mae'n amgylchedd allweddol i gam-drin gael ei nodi ac i gynorthwyo ei ddatrys.

Tynnodd sylw at y ffaith y dywedwyd wrth ei phlentyn bod yn rhaid i'w agwedd at waith wella neu ni fyddai'n cael ei dderbyn i'r chweched dosbarth, sy'n groes i gonfensiynau Llywodraeth Cymru.

Caeodd drwy ddweud pa mor bwysig yw hi fod plant y dysgu am gydraddoldeb rhywiol ac am y rhesymau pam bod llai o fenywod wedi cyflawni pethau mewn hanes.

**Adborth gan Wasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr na allai fod yn bresennol:**
Mae angen i feddygon teulu fod yn fwy ymwybodol o newidiadau mewn patrymau cyflwyno a sut y gallai hyn fod o ganlyniad i gam-drin gartref. Amlygodd un unigolyn o'r Gwasanaeth Grymuso ac Addysgu Goroeswyr fod y sawl a oedd yn ei cham-drin yn mynd gyda hi bob tro i apwyntiadau ac yn gwneud y siarad i gyd. Gan ei bod hi'n fyddar, ni chwestiynwyd hyn erioed. Roedd y tramgwyddwr yn rheoli'r rhyngweithio rhyngddi hi â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Enghraifft arall a roddwyd oedd tramgwyddwr a oedd yn siarad ar ran y ferch â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a chredai'r seiciatrydd ei fersiwn ef.

Yn anffodus, mae'r grŵp yn teimlo nad yw'r rhain yn brofiadau unigryw a bod cam-drin yn cael ei hwyluso gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hytrach na bod gweithwyr iechyd yn meddwl am sut y gallent atal a tharfu ar dramgwyddwr.

Ymhlith y pwyntiau ychwanegol roedd;

- Hyfforddiant gorfodol am ymddygiad tramgwyddwr ar gyfer meddygon teulu
- Cyfeirio gwell at wasanaethau eraill
- Gwell gefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma
- Atal y dioddefwr/goroeswr rhag cael ei basio o bared i bost

**Cwestiynau/sylwadau o'r llawr:** Tynnodd Carole Philips sylw at gynllun peilot newydd gyda'r nod o uwchsgilio staff addysgu am iechyd meddwl ymysg pobl ifanc. Cefnogwyd hyn gan Vaughan Gething AC a Kirsty Williams AC. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'n orfodol bod pob ysgol yn derbyn hyfforddiant ar iechyd meddwl neu drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn aml yr ysgolion sy'n cydnabod y materion hyn yw'r rhai sy'n dewis cael sesiynau. Awgrymwyd y dylid ystyried enghreifftiau o arfer gorau o ysgolion a'u rhaeadru i ysgolion eraill. Felly cytunwyd yn y cyfarfod bod hyfforddiant gorfodol mewn ysgolion yn hanfodol yma.

Tynnodd Llamau sylw at gynllun peilot yng Ngwent sy'n gweithio gyda meddygon teulu i gynorthwyo gyda'r gwaith o dynnu sylw at droseddwyr.

Teimlai Bethan Sayed fod yn rhaid i unrhyw hyfforddiant gorfodol i feddygon teulu fod drwy Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a rhaid ystyried a yw meddygon teulu yn cael eu talu am fynychu'r hyfforddiant a chael eu tynnu allan o feddygfeydd.

**Camau i'w cymryd:**
Cytunwyd yn y cyfarfod y dylid cysylltu â Kirsty Williams AC ynghylch pwysigrwydd hyfforddiant gorfodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion.

Dywedodd Bethan Sayed AC fod adolygiad o anhwylderau bwyta ledled Cymru wedi cael cefnogaeth gan Vaughan Gething, felly efallai y bydd lle i ddatblygu adolygiad tebyg ynghylch cam-drin ac ymatebion meddygon teulu. Cymorth i Ferched Cymru i fynd ar drywydd hyn gyda Bethan.

Cymorth i Ferched Cymru i ystyried mewnbwn y Pwyllgor Safonau o ran urddas a pharch at y grŵp trawsbleidiol ar y cyd â menywod.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth y cyfarfod i ben am 13:30.**